



Hydref 28, 2024, 18:00-20:00

UNDEB MYFYRWYR ABERYSTWYTH

Hydref 2024 Y SENEDD





Agenda

Croeso

1. Croesawu ac Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyniadau
3. Ethol dirprwy gadeirydd
4. [Adroddiad y Llywydd.](#)

Hen Bolisiau (Er Gwybodaeth)

1. Syniadau 1: Cyfnodau Gras a Chosbau ar gyfer Aseiniadau
2. Syniadau 2: Oes gennych chi Brawf?
3. Syniadau 3: Anfodlonrwydd ynghylch yr hawl i ail-sefyll
4. Syniadau 4: Byddwch yn Rhan o #CymruWrthHiliaeth - Cynghrair Hil Cymru
5. Syniadau 5: Gwella Darpariaeth y Gymraeg mewn Modiwlau
6. Syniadau 6: Dragon Mac- be' ti'n galw fe??
7. Syniadau 7: Atal Sbeicio Diodydd a Chefnogi Goroeswyr

Syniadau

- Mae gwelliannau i Is-Ddeddf Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr
- Syniad Un: Polisi Goddef Dim tuag at Wahaniaethu, Aflonyddwch ac Ymosodiadau Rhywiol
- Syniad Dau: Dylai'r Undeb Myfyrrwyr Gefnogi Unrhyw Ailddatblygu I'r Cyfleusterdau Chwaraeon Yn Y Blynyddoedd I Ddod. (Diwygiedig)

Sylwadau Olaf y Cyfarfod

1. Unrhyw Faterion Eraill.
2. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf.
3. Diwedd y Cyfarfod.

Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr [a Chynigion o Bleidlais o Ddiffyg Hyder](#)

Rhagarweiniad

1. Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr [neu Gynigion o Bleidlais o Ddiffyg Hyder](#)

1.1 Gellir galw Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr i benderfynu unrhyw fater.

2. Cynnig o Ddiffyg Hyder

2.1—Mewn Ymddiriedolwr:

Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 62), mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr i basio Cynnig o Ddiffyg Hyder mewn Ymddiriedolwr, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig. 2.2 Mewn Swyddog Llawn Amser neu Wirfoddol: Er mwyn pasio Cynnig o ddiffyg hyder mewn Swyddog Llawn amser neu Wirfoddol, mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

2.1 Mewn Ymddiriedolwr (gan gynnwys Swyddogion Llawn Amser):

Gan gydymffurfio â'r Cyfansoddiad (cymal 62). Daw swydd Ymddiriedolwr i ben os caiff cynnig o Ddiffyg Hyder yn yr Ymddiriedolwr ei basio gan fwyafirif clir o Aelodau Cyffredin wrth gynnal Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr, ar yr amod bod o leiaf 500 Aelod Cyffredin wedi bwrw pleidlais yn achos Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr. Dim ond Deiseb Ddiogel am Bleidlais o Ddiffyg Hyder a all beri'r fath gynneg (yn cynnwys enw, rhif myfyriwr, a chyfeiriad e-bost y brifysgol) a honno wedi'i llofnodi gan 250 Aelod Cyffredin.

2.2 Swyddog Gwirfoddol a Etholir mewn Pleidlais ar draws y Campws:

Rhoddir y gorau i swydd Swyddog Gwirfoddol os caiff cynnig o bleidlais o ddiffyg hyder ei basio gan fwyaf syml o Aelodau Cyffredin wrth gynnal Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr, ar yr amod bod o leiaf 500 Aelod Cyffredin wedi bwrw pleidlais yn achos Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr. Dim ond Deiseb Ddiogel am Bleidlais o Ddiffyg Hyder a all beri'r fath gynneg (yn cynnwys enw, rhif myfyriwr, a chyfeiriad e-bost y brifysgol) a honno wedi'i llofnodi gan 250 Aelod Cyffredin.

2.3 Swyddog Gwirfoddol a Etholir gan Bleidlais Gyfyngedig:

Lle caiff Swyddog Gwirfoddol ei ethol gan Bleidlais Gyfyngedig (fel yr amlinellir yn is-ddeddf yr etholiadau), rhoddir y gorau i swydd Swyddog Gwirfoddol os caiff cynnig o bleidlais o ddiffyg hyder ei basio gan fwyaf syml o Aelodau Cyffredin cymwys, ar yr amod bod o leiaf 30% o Aelod Cyffredin cymwys wedi bwrw pleidlais. Dim ond Deiseb Ddiogel am Bleidlais o Ddiffyg Hyder a all beri'r fath gynneg (yn cynnwys enw, rhif myfyriwr, a chyfeiriad e-bost y brifysgol) a hynny wedi'i llofnodi gan 20% neu 250 Aelod Cyffredin cymwys. Caiff nifer y rhai cymwys ei mesuro gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar gael gan y Brifysgol neu ddata ystadegol cenedlaethol os cheir data'r Brifysgol.

2.4: aelod Pwyllgor Grŵp Myfyrrwyr

Daw swydd Aelod Pwyllgor Grŵp Myfyrrwyr i ben os caiff cynnig o bleidlais o ddiffyg hyder ei basio gan fwyaf syml o Aelodau Myfyrrwyr y grŵp dan sylw wrth gynnal Pleidlais Grŵp Myfyrrwyr, ar yr amod bod o leiaf 30% o aelodau'r grŵp myfyrrwyr yn bwrw pleidlais. Dim ond Deiseb Ddiogel am bleidlais o ddiffyg hyder a all beri'r fath gynneg (gan gynnwys enw, rhif myfyriwr, a chyfeiriad e-bost y brifysgol) wedi'i llofnodi gan 20% o aelodaeth y grŵp hwnnw.

2.5: Cynrychiolydd Academaidd

Rhoddir y gorau i swydd Gynrychiolydd Academaidd os caiff cynnig o bleidlais o ddiffyg hyder ei basio gan fwyaf syml o'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli wrth gynnal Pleidlais Grŵp Myfyrwyr, ar yr amod bod o leiaf 30% o'r myfyrwyr perthnasol yn bwrw pleidlais. Dim ond Deiseb Ddiogel am bleidlais o ddiffyg hyder a all beri'r fath gynnig (gan gynnwys enw, rhif myfyriwr, a chyfeiriad e-bost y brifysgol) wedi'i llofnodi gan 20% o aelodaeth y grŵp hwnnw.

3. Polisi

3.1 Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 45) mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfywyr i gytuno ar bolisi a gyfeiriwyd at Bleidlais yr Holl Fyfywyr gan fwrdd yr Ymddiriedolwyr, Pwyllgor Gwaith yr Undeb, Cyfarfod o'r Cynulliad, Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol neu ddeiseb ddiogel, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

4. Cyfrifoldebau

4.1 Y Swyddog Etholiadau, neu ei Ddirprwy, a hwythau wedi'u penodi'n unol ag isdeddfau'r etholiadau, fydd yn gyfrifol am weinyddu Pleidlais yr Holl Fyfywyr a'i chynnal yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau a disgrifir yn fanwl yn y Cyfansoddiad (cymal 44-47).

5. Cyhoeddi

5.1 Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi bod Pleidlais yr Holl Fyfywyr wedi cael ei galw, ynghyd â manylion pam y gwnaed hynny, yng nghyfarfod nesaf y Senedd.

5.2 Trefnir Pleidlais yr Holl Fyfywyr yn unol â'r amserlen ganlynol; y Dirprwy Swyddog Etholiadau sy'n gyfrifol am benderfynu'r union ddyddiadau ar gyfer hyn:

- a. Cyhoeddi'r cynnig, dyddiad(au) ar gyfer Pleidlais yr Holl Fyfywyr a dyddiad cyfarfod, sy'n agored i'r holl aelodau, i esbonio a thrafod y materion sydd dan sylw, a gynhelir heb fod yn hwyrach na dechrau'r pleidleisio.
- b. Os yw'r mater yn un dadleuol, bydd y cyfarfod yn enwebu dau asiant a fydd yn gyfrifol am redeg yr ymgyrch "Pleidleiswch Ie" a'r ymgyrch "Pleidleiswch Na". Bydd y naill asiant a'r llall yn derbyn lwfans cyhoeddusrwydd, wedi'i dalu gan UMABer, sy'n cyfateb i'r lwfans y cytunwyd arno ar gyfer etholiadau swyddogion ymddiriedolwyr.
- c. Cyhoeddi'r cynnig a'r cwestiwn sydd i'w ofyn a rhoi cyhoeddusrwydd pellach i ddyddiadau pleidleisio.

6. Pleidleisio

6.1 Bydd pob Aelod cyffredin yn gymwys i bleidleisio mewn Pleidlais yr Holl Fyfywyr ar bolisi neu gynigion o bleidlais o ddiffyg hyder yn ymwneud â myfyrwyr a etholwyd gan Bleidlais ar draws y Campws.

6.2. Yn achos pleidlais o ddiffyg hyder dros rolau a etholwyd gan bleidlais gyfyngedig bydd yr isod yn gymwys i bleidleisio:

a) Swyddog Gwirfoddol a etholwyd gan bleidlais gyfyngedig: Pan yn pleidleisio dros rolau sy'n cynrychioli myfyrwyr o grwpiau rhyddid a rhannau penodol o gorff y myfyrwyr, gall yr Undeb gyfyngu ar bwy a gaiff bleidleisio i'r rheini sy'n hunaniaethu gyda'r grŵp rhyddid dan sylw neu sydd o fewn rhan benodol.

b) Pwyllgorau Grŵp Myfyrwyr: Holl aelodau myfyrwyr grŵp myfyrwyr penodol (gan gynnwys Clybiau a Chymdeithasau)

c) [Cynrychiolaeth Academaidd: Yr holl fyfyrwyr sy'n cael eu cynrychioli gan Gynrychiolydd Academaidd penodol.](#)

6.32 Caiff manylion yr etholiadau a'r broses bleidleisio eu cyhoeddi trwy wefan [Undeb Aber UMAber](#), ac unrhyw le arall a ystyrir yn addas gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

6.43 Fel arfer, cynhelir y bleidlais yn electronig.

6.54 Dylai'r opsiynau ganiatáu i Aelodau bleidleisio naill ai o blaid, yn erbyn neu ymatal ar bob cynnig.

7. Datganiad

7.1 Caiff canlyniadau- [unrhyw B](#)Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr [neu Bleidlais o Ddiffyg Hyder](#) eu cyhoeddi gan y Swyddog Etholiadau pan fydd y cyfrif ar gyfer pob un wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

7.2 Gosodir canlyniadau [unrhyw B](#)Pleidlais yr Holl Fyfyrwyr [neu Bleidlais o Ddiffyg Hyder](#) ar wefan yr Undeb o fewn un diwrnod gwaith o'r cyfrif.

Polisi Goddef Dim tuag at Wahaniaethu, Aflonyddwch ac Ymosodiadau Rhywiol

Swyddog Sy'n Gyfrifol: Llesiant

Cyflwynwyd gan: Emily (Mo) Morgan

Crynodeb:

Yn cynnig i "Undeb Aber ymrwymo i flaenoriaethu lles myfyrwyr gan orfodi polisi goddef dim tuag at gwahaniaethu neu ymddygiad anaddas gan gynnwys aflonyddwch, ymosodiadau a bwlio rhywiol"

Manylion:

"mae dau draean (66%) o fyfyrwyr a graddedigion wedi profi trais rhywiol ym mhrifysgolion y DU a dim 2% o'r rheini a brofodd drais rhywiol oedd yn teimlo y gallent ei adrodd i'w prifysgolion ac oedd yn fodlon gyda'r broses adrodd (Arolwg Trais Rhywiol ac Ystafelloedd Myfyrwyr)."

Mae'n amlwg bod yna broblem ymysg cymunedau myfyrwyr.


Y llynedd, yn sgil hyn y mae'r broblem hon wedi gofyn am lawer o waith i ymdrechu dros fynd i'r afael â phynciau ynghlwm â chydsyniad a thrais rhywiol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: datblygu arweiniad i glybiau a chymdeithasau gan olygu'r cod ymddygiad, ailgyflwyno'r ymgyrch 'dim esgusodion' a gweithio gyda'r brifysgol i ddatblygu'r polisi trais a chamymddwyn rhywiol (a'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25). Wedi'r gwaith hwn, mae'n ymddangos yn hollol briodol y dylai'r Undeb wneud safiad, polisi ynglŷn â mynd i'r afael â gwahaniaethu ac aflonyddwch rhywiol. Mae gan yr Undeb berthynas gref barhaol gyda'r Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n gyfrifol am 'Adrodd a Chefnogi' ac y mae wedi'i ailstrwythuro y gwasanaethau ar y campws i integreiddio system Swyddfa Gyswllt Trais Rhywiol. Mae'r ddarpariaeth bellach i'w chael ac wrthi'n gwella, byddai cyflwyno'r safiad hwn yn gadael i'r Undeb weithio fel cymuned gynhwysol i ymladd â'r broblem hon gan gynnig rhywle lle gall myfyrwyr drafod eu profiadau – rhywbeth hanfodol er eu lles a'u dyfodol yn y brifysgol. Rhyddhawyd datganiad yn erbyn casineb at fenywod ar ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, byddai gwneud y safiad hwn yn bolisi yn sicrhau bod y swyddogion yn cynnal safiad o oddef dim ar flaen eu holl waith dros y dair blynedd nesaf.

Ffynhonnell:

[Revolt Sexual Assault & The Student Room. \(2018\). Report: Students' Experience of Sexual Violence. Retrieved from https://revoltsexualassault.com/wp-content/uploads/2018/03/Report-Sexual-Violence-at-University-Revolt-Sexual-Assault-The-Student-Room-March-2018.pdf](https://revoltsexualassault.com/wp-content/uploads/2018/03/Report-Sexual-Violence-at-University-Revolt-Sexual-Assault-The-Student-Room-March-2018.pdf)



SENEDD



Dylai'r Undeb Myfyrwyr Gefnogi Unrhyw
Ailddatblygu I'r Cyfleusterdau Chwaraeon Yn

Y Blynyddoedd I Ddod. Fel Eu Blaenoriaeth Gyntaf Un. (Diwygiedig)

Swyddog Sy'n Gyfrifol: Cyfleoedd Myfyrwyr

Cyflwynwyd gan: Tiff McWilliams

Crynodeb:

Dyw cyfleusterau chwaraeon Prifysgol Aberystwyth ddim cystal ag y dylent fod. Maent yn arbennig o anaddas i fyfyrwyr gystadlu.

Manylion:

Gwreiddiol:

Yn y gorffennol, rydym wedi gweld gwaith ailddatblygu ar gyfer y blociau llety, neuaddau darlithio a'r campysau ymchwil. (Fferm Penglais 2015, Pantycelyn 2020; HO C22 2019; AIEC 2020 ar waith).

Yr unig beth mae Prifysgol Aberystwyth yn prin ohono yw cyfleusterau chwaraeon addas i'n holl Glybiau Chwaraeon Undeb a myfyrwyr. Un ai i'w defnyddio ar gyfer chwarae mewn tîm neu ar gyfer defnydd unigolyn. Nid yw canolfan na neuadd y chwaraeon yn addas i'r pwrpas ar gyfer ein corff myfyrwyr presennol, mae wedi dod i'r amlwg oherwydd yr effaith o govid-19. Canolfan y Chwaraeon yw'r 2il adeilad a godwyd erioed yma ym Mhenllys ac mae'n rhy hen ar gyfer ei phwrpas. Mae angen cydnabod tîm staff Canolfan y Chwaraeon am gael yr allbwn uchel maent yn ei gael gan eu cyfleusterau. Ond rydym yn credu ei bod hi nawr yn hen bryd i fuddsoddi arian i ddatblygu'r cyfleusterau chwaraeon nad yw'n addas ar gyfer ein corff myfyrwyr sydd erioed yn weithredol.

Cyflwynwyd gan: Bruce Fraser Wight

Wedi'i ddiweddarau:

Yn aml yn y brifysgol, dyw'r chwaraeon ddim yn cael ei gweld yn flaenoriaeth. Yn enwedig o ystyried bod angen adnewyddu ar rannau helaeth o'r campws. Gyda'r Is-ganghellor newydd, a'r tîm gweithredol diweddaraf, nawr yw'r cyfle i bwysleisio

pwysigrwydd cael ein chwaraeon a'n cyfleusterau ar safon cyfartal â phrifysgolion cystadleuol eraill. Mae'r brifysgol wedi buddsoddi rhywfaint o arian yng Nghanolfan y Celfyddydau, ac fe lwyddodd i godi'r Gromen Chwaraeon. Fodd bynnag, nid yw

buddsoddi yn y gampfa yn gwneud yn iawn am ddiffyg buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon.

- Rydyn ni heb gae hoci o hyd.
- Mae'r pwll nofio yr un ers 80 mlynedd ac dyw e ddim yn ddigon mawr ar gyfer BUCS.
- Mae tyllau yn waliau'r cwrt sboncen.
- Mae llwydni yn broblem fawr yn y Gawell Chwaraeon
- Mae angen enbyd am drwsio'r cyrtiau tenis
- Dim ond dwy lôn sydd i'r llwybr rhedeg, yn bell o fod yn ddigonol i bobl gystadlu
- Does gennym gyfleusterau ar gyfer gweithgaredd maes athletau.
- Dyw'r 3G ddim yn ddigon mawr na chwaith gyda'r pethau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer BUCS (ee llwyfan).

Mae gan y Brifysgol gynllun amhosib ar gyfer y cyfleusterau chwaraeon ac mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfleoedd ddechrau gweithio ar hyn nawr a hyd y gellir rhagweld er mwyn sicrhau fod y cyfleusterau ar gael i ddiwallu anghenion hyfforddi a chystadlu ein nifer anhygoel ac amrywiol o glybiau chwaraeon.

[Edrychwch ar y Polisi Dirwyn i Ben gwreiddiol](#)